



**CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN  
COFNODION CYFARFOD CYLLIDEB LLAWN  
NOS IAU 8<sup>fed</sup> IONAWR 2009 AM 7.00PM  
NEUADD Y DREF LLANBEDR PONT STEFFAN**

**1. CROESO'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd sef y Cyng. Maer Derek Wilson bawb i'r Cyfarfod. Eglurodd mai pwrpas y cyfarfod oedd pennu maint y presept (y dreth leol a godir gan Gyngor y Dref) am y flwyddyn ariannol Ebrill 2009-Mawrth 2010.

**YN BRESENNOL**

**Cynghorwyr Tref:**

**Maer Derek Wilson;** Dirprwy-Faer Selwyn Walters,  
Cecilia Barton, Andrew Carter, Greg Evans, Robert Phillips,  
Kistiah Ramaya, Chris Thomas & Dorothy Williams,  
Cyng. Tref a Sir Robert (Hag) Harris,  
& Chyng. Sir Ifor Williams.

**2. YMDDIHEURIADAU**

**Ymddiheurodd y Cyng.** John Davies, Margaret Davies-Evans a Lynda Mason-George am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Holl gynghorwyr a oedd yn bresennol: pan yn trafod y testun parthed goleuadau stryd.

**4. GOLEUADAU STRYD**

**Roedd yr wybodaeth a dderbyniwyd** oddi wrth y Cyngor Sir yn amlinellu newidiadau parthed goleuadau stryd o'r 1af o Ebrill 2009. Y bwriad yw diffodd golau am gyfnod o'r noswaith mewn mannau tu allan i ganol y dref a newid hen oleuadau, a fydd yn arwain at arbedion mewn costau cynnal a chadw a gwella effeithiolrwydd. Cafodd y CT gyfle i dalu am gadw'r goleuadau i gyd neu goleuadau penodedig ymlaen o 12 Canol Nos tan 5am. Ystyriwyd y posibilïadau ac yn sgîl hynny yr effaith ar bresept y flwyddyn olynol.

Derbyniwyd fapiau gan y Cyngor Sir yn dangos goleuadau a oedd wedi eu lleoli o fewn Ward Llanbedr PS. Y mae 5 categori o oleuadau megis (Dosbarth 1,2,3,4 & Chefnffyrdd)

- Goleuadau â rhif yn dechrau â 101 – lleolir y rhain ar ffyrdd dosbarth 1
- Goleuadau â rhif yn dechrau â 201 – lleolir y rhain ar ffyrdd dosbarth 2
- Goleuadau â rhif yn dechrau â 301 – lleolir y rhain ar ffyrdd dosbarth 3
- Goleuadau â rhif yn dechrau â 401 – lleolir y rhain ar ffyrdd dosbarth 4
- Goleuadau â rhif yn dechrau â 501 – lleolir y rhain ar gefnffyrdd. Cânt eu gweithredu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac nid ydynt yn rhan o'r broses yma. Bydd y goleuadau hyn ymlaen trwy'r nos.
- Goleuadau â rhif sy'n dechrau â SL – Hen Oleuadau Cyngor Cymuned neu Dref a gellir eu lleoli unrhyw le ar unrhyw ddosbarth o ffordd, gan gynnwys Cefnffyrdd.

Caiff yr hen oleuadau Cynghorau Cymuned a Thref (SL) – a goleuadau ar ffyrdd dosbarth 4 (401) eu newid i ddull newydd o olau.

**Bwriedir trosi'r holl Oleuadau Priffyrdd a'r hen oleuadau Cynghorau Chymuned yng Ngheredigion i ddiffodd rhwng canol nos a 5.00am. Yr eithriadau i hyn fydd nifer fach o ffyrdd mewn canol trefi a rhai ardaloedd lle y gellir dangos bod angen clir am oleuadau drwy'r nos. Gwneir hyn yn bennaf drwy ymgynghori â'r Heddlu.**

Gellir dangos y newidiadau arfaethedig ar ffurf tabl megis:

<b>SL (Hen Oleuadau Cyngor Cymuned neu Dref - Priffordd a Throed) wedi eu lleoli ar:</b>					
Ffyrdd dosbarth 1 101-	Ffyrdd dosbarth 2 201-	Ffyrdd Dosbarth 3 301-	Ffyrdd Dosbarth 4 401-	Cefnffyrdd	Lleoliadau Eraill
Eu newid i ddull newydd o olau					
Yn cael eu diffodd o 12 Canol Nos tan 5.00am.					
Gellir eu cadw ymlaen am bris penodol o £14 (i'r Cyngor Tref) yr un ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.					

<b>Goleuadau sydd heb fod yn SL (Hen Oleuadau Cyngor Cymuned neu Dref - Priffordd a Throed) wedi eu lleoli ar:</b>				
Ffyrdd dosbarth 1 101-	Ffyrdd dosbarth 2 201-	Ffyrdd Dosbarth 3 301-	Ffyrdd Dosbarth 4 401-	Cefnffyrdd
Dull o olau yn aros yr un peth	Dull o olau yn aros yr un peth	Dull o olau yn aros yr un peth	Eu newid i ddull newydd o olau	Heb fod yn berthnasol
Yn cael eu diffodd o 12 Canol Nos tan 5.00am.				I Heb fod yn berthnasol
Cost i'r Cyngor Tref i gadw golau unigol ymlaen ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf (bydd rhaid cadw stryd gyfan ohonynt i ymlaen)				I Heb fod yn berthnasol
£45	£45	£45	£14	Heb fod yn berthnasol

Gellir cadw ymlaen hen oleuadau Cynghorau Cymuned a Thref (SL) a goleuadau ar ffyrdd dosbarth 4 (401) am bris penodol o £14 yr un ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar Ebrill 1af 2009, beth bynnag y bo'r union gost o'u rhedeg.

Gellir cadw ymlaen drwy'r nos y goleuadau ar bob ffordd arall am bris penodol o £45 yr un ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar Ebrill 1af 2009, beth bynnag y bo'r union gost o'u rhedeg.

O ran yr hen oleuadau Cynghorau Cymuned a Thref (SL) gellir cadw rhain ymlaen yn unigol, ond os byddwch am sicrhau na chaiff rhai o'r goleuadau eraill diffodd bydd yn rhaid cadw stryd gyfan ohonynt ymlaen (101-,210-, 301- and 401-).

Ystyriwyd cadw'r holl oleuadau ymlaen o 12 Canol Nos tan 5:00am (heb gynnwys y goleuadau 501 ar gefnffyrdd).

Amcanbris y gost yw £2,500 y flwyddyn am oddeutu 200 o oleuadau stryd.

Wedi trafodaeth, penderfynwyd derbyn y newidiadau arfaethedig gan y Cyngor Sir parthed golau stryd ac i beidio talu am unrhyw oleuadau i'w cael eu cadw ymlaen o 12 Canol Nos tan 5.00am. Beth bynnag, bwriad aelodau oedd asesu'r sefyllfa dros y misoedd canlynol a

chydweithio â'r Heddlu i ddarganfod ble y gallai yr angen godi am olau yn ystod yr oriau dan sylw.

Os bydd y trefniant hwn yn cael effaith negyddol ar ansawdd bywyd trigolion Llanbedr PS byddai'r penderfyniad yn cael ei ail-ystyried.

## **Fel canlyniad i'r drafodaeth ni wnaed trefniadau i gwrdd â'r gost o gynnal goleuadau stryd o fewn y gyllideb 2009-10.**

### **5. Y PRESEPT AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL**

Trafodwyd yr Adroddiad Gyllideb (ynghlwm). Gan fod y cynghorwyr yn teimlo y gellid cwrdd â'r holl alwadau o fewn terfynau'r gyllideb a oedd wedi ei pharatoi penderfynwyd cadw'r presept heb ei newid am y 5ed flwyddyn yn olynol sef £48.96 y flwyddyn neu 94 ceiniog yr wythnos i drethdalwr band D.

Mae'r ffaith nad oes cynnydd wedi bod yn y presept am flynyddoedd yn adlewyrchiad o'r ffordd effeithiol y mae aelodau wedi gofalu am arian y cyhoedd. Mae'r gostyngiad yn nhaliadau Camerau Teledu Cylch Cyfyng (CTCC) wedi bod yn allweddol hefyd i alluogi'r Cyngor Tref i fod yn stiwardiaid effeithiol o'u harian. Ystyriwyd maint y swm cyfalaf oedd wrth gefn ac adroddwyd y gallai'r Cyngor wynebu costau ychwanegol yn wyneb datblygiadau yn gysylltiedig â Chae'r Bryn, Cae Maesyderi a phrosiectau eraill oedd wedi eu crybwyll yn y gyllideb. Yn ogystal gallai'r Cyngor Sir ddileu gwasanaethau arbennig a byddai hyn yn golygu y byddai'n ofynnol i'r Cyngor Tref i dalu amdanynt o'r arian wrth gefn.

Awgrymwyd y gellid cynyddu cyfarniadau i elusennau lleol.

Adroddwyd nad oedd y Cyngor Tref yn teilyngu iawndal o dan y Cynllun Gwasanaeth Ariannol Digollediad ac nid oedd £50,000 yn Lloyds TSB a £50,000 yn Alliance & Leicester wedi eu sicrhau petai'r banciau ym profi anhawsterau'n y dyfodol. Adroddwyd fod Clybiau ac Elusennau yn gymwys i dderbyn iawndal ond nid Awdurdodau Lleol gan gynnwys y Cyngor Tref. Rhannu'r arain wrth gefn dros nifer o fancau oedd y dewis gorau yn nhŷb aelodau.

### **6. CTCC**

Tafluniad o'r gost ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yw is £12,000.

### **7. UFA**

**7.1 Holodd y Gyng. Dorothy Williams** beth oedd y trefniadau am gynnal a chadw cloc y dref o dan y berchenogaeth newydd. Penderfynwyd ceisio gwybodaeth oddi wrth y Cyngor Sir.

**7.2 Y Cynllun Cyhoeddi Model Newydd:** Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Yn unol ag Adran 20 y Ddeddf mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cymeradwyo cynllun cyhoeddi model newydd y dylai pob awdurdod cyhoeddus ei fabwysiadu a bydd yn weithredol o 1 Ionawr 2009 - nodwyd yr wybodaeth.

**7.3 Seremoni Urddo'r Maer:** Cynhelir ar y 1af o Fai

**Daeth y Cyfarfod i ben am 8.35pm.**

### **8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Nos Iau 29<sup>ain</sup> Ionawr 2009 at 7.30pm**

(Arwyddwyd  
Cadeirydd/Dyddiad)

---